Cyngor Tref Nefyn

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/10/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Rhian Sanson | Gwynfor Jones |
| Carys Roberts | Alaw Llewelyn Roberts | Iwan Evans | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Arfon Hughes, Rhys Llewelyn, Gareth Jones, Caren Jones, Catrin Roberts a Lleucu Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gito Williams – eitem 11.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 10/09/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Sedd Wag – Diweddariad –** Clerc
      Cafwyd diweddariad gan y Clerc, mae dyddiad cau yr Hysbysiad cyntaf wedi pasio ac mae'r Rhybudd Cyfethol i fyny rwan gyda dyddiad cau ymhen y mis.
   2. **Llwybr arfordir i maes parcio Cliffs –** Gruffydd Williams
      Cafwyd diweddariad gan aelod lleol Nefyn, mae o a swyddog arfordir Cymru am gyfarfod perchnogion y Cliffs i drafod mynedfa troed newydd i'r maes parcio ond mae'n edrych fel bod y perchnogion eisiau cytundeb tebyg i'r un a wnaed rhwng y Waldies â Cyngor Gwynedd cyn iddynt gytuno i'r fynedfa newydd. Gan fod hyn yn mynd i gymeryd amser i roi at ei gilydd mae'n rhaid cychwyn ar y gwaith ar weddill y llwybr yn syth.

5. **Sul y Cofio –** Clerc
   Mae'r Clerc wedi cael cadarnhad o ddyddiad ac amser ar gyfer y gwasanaethau yn y tri phentref ac mae hi wedi cysylltu hefo'r Heddlu i adael iddynt wybod ac wedi cael caniatad gan Cyngor Gwynedd i gau y ffyrdd yn ystod y gwasanaethau. Mae angen dewis cynrychiolwyr i blismona cau y ffyrdd yn ystod y gwasanaethau yn Nefyn ac Edern sef 2 aelod ym mhob pentref. Mae'r torchau wedi cael eu archebu ac felly mae angen penderfynnu pwy o bob pentref fydd yn eu gosod ar ran CTN. Mae'r Clerc am drefnu bod yr arwyddion 'Ffordd ar gau' sydd yn Siop Siarad yn cael eu rhoi yn y pedwar safle ar y dydd Sadwrn ac am roi rhybudd ar gweplyfr i adael y pentrefwyr wybod y bydd y ffyrdd ar gau.
   Penderfyniad: mae 3 aelod wedi cael eu dewis i osod y torchau ar ran CTN a 4 aelod i blismona cau y ffyrdd yn Nefyn ac Edern.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

CYNGOR TREF NEFYN

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/10/2024 am 7yh

6. **Coed Nadolig –** Clerc
Mae dyddiadau wedi cael eu rhoi allan ar gyfer ymweliad Sion Corn i'r tri pentref felly mae'r Clerc yn awyddus i drefnu fod y goeden nadolig i fyny cyn y dyddiadau yma a bod y gwasanaethau goleuo yn cael eu trefnu. Mae'r Clerc wedi archebu 3 coeden gan yr un cwmni a llynedd ac mae'r aelodau yn hapus hefo'r un trefniadau a llynedd am ei gosod a gosod y goleuadau. Awgrymwyd ein bod yn gofyn i'r un cwmniau a llynedd hefyd os ydynt eisiau cyfrannu am y goeden ac mae'r Clerc am gysylltu hefo nhw. Bydd cais i gau y ffyrdd yn Nefyn yn cael ei roi i fewn i Cyngor Gwynedd ac fe fydd gweddill o'r trefniadau yn cael eu trafod ym mhwyllgor mis nesaf.

7. **Pris Designer Signs i osod arwydd newydd uwchben Siop Siarad –** Clerc
Derbyniwyd pris gan y cwmni ar gyfer ail wneud yr arwydd uwchben Siop Siarad ac mae'r aelodau wedi cael copi ohono, gan mai'r cwmni yma a wnaeth yr arwydd gwreiddiol dim ond ychwanegu logo CTN yn y canol yn lle Menter Llŷn sydd angen.
Penderfyniad: pasiwyd i dderbyn y pris a cario ymlaen gyda'r gwaith.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Carys Roberts

8. **Datgblyiad tai fforddiadwy bwriededig ar dir ger Helyg, Nefyn gan Grŵp Cynefin**
Yn dilyn y pwyllgor diwethaf a'r cyflwyniad gan Grŵp Cynefin mae aelod lleol Nefyn yn gofyn am gefnogaeth gan weddill yr aelodau i wrthod y bwriad yma gan nad oes dim yn cyfyngu defnydd y tai yma i bobol Nefyn â'r cyffiniau agos yn lle pobol o ffwrdd sydd yn ddi Gymraeg. Gan fod CTN yn aelod o Perthyn ac wedi clustnodi'r ardal yn Ardal o Arwyddocad Ieithyddol Eithriadol mae'n bwysig fod CTN yn cwffio hyn, mae Cyngor Powys wedi rhoi amod ieithyddol ar 4 tŷ mewn ystad newydd o dai ym Machynlleth sef bod rhaid i'r tai hynny gael eu gosod i deuluoedd Cymraeg felly mae angen i Cyngor Gwynedd ddechrau defnyddio'r hawliau yma hefyd.
Penderfyniad: gwrthod y datblygiad ac mae'r aelod lleol am ddrafftio llythyr yn datgan hyn.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams

9. **Adroddiad Perthyn –** Gruffydd Williams
Mae'r eitem yma wedi cael ei drafod ym mhwynt 8.

10. **Archebu planter i Nefyn –** Gruffydd Williams
Mae aelod lleol Nefyn yn awyddus i gael un arall o'r 'planters' tair 'tier' i Nefyn gan fod arian ar ôl yn y gronfa flodau, mae yna arian ar ôl ar gyfer Edern a Morfa hefyd a gan fod nifer o'r aelodau yn asbennol heno mae'r mater wedi cael ei roi ar agenda mis nesaf i weld os ydi aelodau Morfa ac Edern eisiau archebu un hefyd ac i benderfynnu ar eu lleoliad.
Penderfyniad: pasiwyd i gael planter i Nefyn ond aros tan pwyllgor mis nesaf i weld os ydi Edern a Morfa eisiau un hefyd ac yna gwneud un archeb am y cwbwl.
Cynnig: Gruffydd Williams Eiliio: Iwan Evans

11. **Cais am gyfraniad ariannol –** Pwyllgor Cae Chwarae Edern

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/10/2024 am 7yh

Mae'r clerc wedi anfon dau ebost i bwyllgor cae chwarae Edern i ofyn am eu datganiad banc er mwyn trafod y cais yma ond does neb wedi ymateb i'r ebyst felly nid oes modd ei drafod eto y mis yma. Mae un o aelodau Edern am basio'r neges ymlaen i'r pwyllgor ac fe fydd y cais yn cael ei roi nôl ar yr agenda unwaith y bydd y datganiad wedi ei dderbyn.

12. **Pris i ail wynebu llwybr aml ddefnydd o Nefyn i Bwlch Bridin –** Clerc
Derbyniwyd dau bris gan ddau gontractwr lleol. Mae aelod lleol Nefyn wedi gwneud ymholiad am gais grant i'r AHNE gan nad oes gan CTN y modd o ariannu hyn ar y funud ond dim ond £2 fil sydd ar ôl yn y gronfa felly fe fydd rhaid rhoi cais i fewn y flwyddyn nesaf ac ail ofyn i'r contractwyr wneud dyfynbris arall erbyn pwyllgor mis Mawrth.
Penderfyniad: ei roi ar agenda mis Mawrth er mwyn rhoi cais am grant i fewn i'r AHNE y flwyddyn nesaf.
Mae un o aelodau Edern yn bryderus am y llwybr sydd yn mynd o flaen tafarn Ty Coch, mae yna sôn ei fod wedi cael ei gau yn y fan honno felly mae'r aelod am fynd i weld os yw hyn yn wir ac adrodd nôl i bwyllgor mis nesaf.

13. **Cofeb Dewi Pws –** Is-gadeirydd
Mae un o'r aelodau yn awyddus i codi cofeb i Dewi Pws rhywle yn Nefyn ac eisiau barn gweddill yr aelodau ar y mater.
Penderfyniad: mae'r aelodau i gyd yn cytuno bod hyn yn syniad da felly mae un o'r aelodau am fynd i siarad hefo Rhiannon i weld os ydi hi yn hapus hefo hyn ac i drafod lle i roi y gofeb.

14. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Llythyr Pwyllgor Penwythnos Porthi'r Penwaig**

Penderfyniad: pasiwyd i dalu am logi y Ganolfan eto ac i brynu byntings a'u gosod i fyny cyn yr ŵyl y flwyddyn nesaf. Mae rhai o'r aelodau yn hapus i fynychu'r cyfarfodydd trefnu pan fyddent wedi cychwyn.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

15. **Ceisiadau Cynllunio**
**C24/0728/42/LL –** Pant, Mynydd Nefyn – Cais llawn i adeiladu tŷ unllawr fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiol.
Penderfyniad: Gwrthod – tŷ newydd yng nghefn gwlad agored heb brofi yr angen amdano.
Cynnig: Rhian Sanson Eilio: Carys Roberts

Ceisiadau Diweddarach
**C24/0800/42/LL** – Cwrw Llŷn, Parc Eithin, Nefyn – Cais llawn i godi estyniad i'r bragdy presennol i ddarparu bar ychwanegol a newidiadau allanol i'r tirlun.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Iwan Evans Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/10/2024 am 7yh

**16. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1599.61 (taliad Bacs) (sydd yn cynnwys y gor-amser a basiwyd ym mhwyllgor mis Medi)
- Designer Signs – Logo CTN - £30.00
- Ffi Diogelu Data - £40.00
- Clwb Pel-droed Nefyn Unedig – bwrdd noddi – £80.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Menai Griffiths, Gareth Parry a Ernest Jones - £1550.00
- D M Parry – ail daliad mynwent Nefyn a pedwerydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £1190.00
- AR Jones Electrical Ltd – ail osod rheiddiadur yn y Llyfrgell - £20.00
- HMRC – PAYE Mis 6 - £278.53
- Cyngor Gwynedd – cyfraniad tuag at Rheolaeth Traeth Nefyn 2024 - £5500.00
- Alan Adams – taliad 6 a 7 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £3230.00
- E.On Next – trydan llyfrgell mis Medi - £161.64

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts     Eilio: Gwynfor Jones

**17. Taliadau wedi eu derbyn**

- G D Roberts – angladd Nicholas Phillips - £730.00
- O H Williams – rent cae mynwent Nefyn - £150.00
-

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com